# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-06-08 (p1): 13 Mawrth 2008**

## Trafod gohebiaeth ar y strwythur prisio ynni yng Nghymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i drafod gohebiaeth a dderbyniodd oddi wrth y Gymdeithas Manwerthu Ynni, y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni, Centrica plc a Golwg ar Ynni Cymru mewn perthynas â'r strwythur prisio ynni yng Nghymru.

### Cefndir

2.Yn ystod ei drafodaethau anffurfiol ar 28 Chwefror 2008, cytunodd y Pwyllgor i archwilio'r strwythur prisio ynni yng Nghymru, yn sgil y cynnydd parhaus ym mhrisiau tanwydd a thystiolaeth Golwg ar Ynni Cymru i'r Pwyllgor a oedd yn dangos bod prisiau trydan yng Nghymru 10 y cant yn uwch na phrisiau trydan Lloegr ar gyfartaledd (Tystiolaeth i'r Pwyllgor, 25 Hydref 2007).

3.Gan fod hwn yn fater brys, cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn dystiolaeth ar 13 Mawrth i gymryd tystiolaeth lafar oddi wrth wahanol sefydliadau sy'n ymwneud â strwythur prisio ynni yng Nghymru.

4.Ar 28 Chwefror, ysgrifennodd y Cadeirydd i'r Gymdeithas Manwerthu Ynni, Centrica plc a Golwg ar Ynni Cymru i'w gwahodd i sesiwn dystiolaeth ar 13 Mawrth. Ceir copïau o'r llythyr hwn ac ymatebion y sefydliadau (Atodiad A) yn yr atodiadau i'r papur hwn.

5.Wrth ymateb, dywedodd y Gymdeithas Manwerthu Ynni (Atodiad B):

"Our activity is not related to matters affecting competition between our members, and the ERA is not a forum for discussions as to energy prices or other commercially sensitive matters. The Energy Networks Association rightly takes the lead on this issue".

6.Gwahoddodd y Cadeirydd y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni i'r sesiwn dystiolaeth. Ceir ymateb y Gymdeithas ynghlwm yn Atodiad C.

7.Ceir ymateb Centrica plc ynghlwm yn Atodiad D.

8.Gwahoddwyd Gofal ar Ynni i'r sesiwn dystiolaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwil a gomisiynwyd ganddo i brisio ynni yng Nghymru. Dylai'r ymchwil fod yn barod i'w gyhoeddi erbyn canol mis Mawrth 2008. Awgrymodd Cyfarwyddwr Golwg ar Ynni Cymru yn ei hymateb (yn Atodiad E) y byddai'n fwy na bodlon dod i'r sesiwn dystiolaeth ond nid oedd yn debygol y byddai'r gwaith ymchwil yn barod i'w gyhoeddi erbyn hynny. Felly penderfynodd y Cadeirydd nad oedd yn fuddiol cymryd tystiolaeth oddi wrth Golwg ar Ynni ar y mater hwn cyn i gasgliadau'r gwaith ymchwil gael eu cyhoeddi.

### Argymhelliad

8.Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i drafod yr ymatebion a geir ynghlwm ac i benderfynu os ydynt am gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r strwythur prisio ynni yng Nghymru.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2008